Dehongli Treftadaeth

www.creu-ad.co.uk

Cydweithio â chymunedau i'w helpu i fynegi eu synnwyr hunaniaeth trwy ddehongli a'r celfyddydau

Newyddion 1 ~ Hydref 2006

Sefydlwyd Creu-ad Dehongli Treftadaeth yn 2001. Ers hynny rydym wedi llenwi cilfach arbennig wrth gydweithio â chymunedau ar brosiectau dehongli arloesol a chreadigol. Yn 2005-2006 mae Creu-ad wedi cyflawni nifer o gontractau cyffroes.

Mae'n gwaith gyda **Chomisiwn Coedwigaeth Cymru** wedi bod yn werth chweil iawn. Cwblhawyd y contract i Nant yr Arian ger Aberystwyth yn 2005 ac mae'r un i Goed y Brenin ger Dolgellau bron wedi'i orffen. Ewch am ddiwrnod allan yn y coedwigoedd i weld cerfluniau penddelw syfrdanol y llwybr beiciau a wnaethpwyd gan Gideon Petersen, y meinciau anarferol a wnaethpwyd gan Roger Newman a cherfluniau penddelw amrywiol David Lloyd a wnaethpwyd o bren a llechi ar gyfer y llwybrau cerdded.

Y tu mewn i'r ganolfan ymwelwyr newydd, bu Lynne Denman yn cydweithio a Shelagh Hourahane ar fap wal o'r goedwig mewn paent a mosäig sy'n dehongli rhai o enwau lleoedd mwyaf anghyffredin y fro. Darparodd plant ysgol lleol y syniadau cychwynnol ar gyfer y gwaith dylunio. Creodd David Lloyd furlun pren anferth yn darlunio'r olygfa i fyny boncyff coeden enfawr yn y goedwig.

Yn Hydref 2005 gorffennwyd prosiect **Gardd Gorwelion** yn **Ysgol Bro Gwaun**, lle'r oedd Lynne Denman a Shelagh Hourahane wedi'u penodi i gynnal preswyliad i bartneriaeth o gleientiaid – Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Menter Iaith Sir Benfro, Ysgol Bro Gwaun a Cywaith Cymru. Cynhaliodd y ddwy artist weithdai gyda naw ysgol gynradd a bu'r gwaith a gynhyrchwyd yn cyfrannu at y mosaigau sy'n rhan o gynllun yr ardd. Roedd y gwaith hefyd yn gomisiwn i gynhyrchu gardd arloesol ar ffurf trisgel, sy'n dehongli hanes, tirwedd a diwylliant yr ardal.

Mae Creu-ad yn cydweithio ers blwyddyn ar brosiect mawr â chymuned **Datblygiad Tai de Havilland**, Hatfield, Swydd Hertford. Y briff oedd datblygu syniadau am weithiau celf a fyddai'n harddu'r datblygiad gan gynnig negeseuon am hanes y safle, maes awyr de Havilland gynt, ac am ei ddyheadau am ddyfodol cynaliadwy. Cyhoeddwyd strategaeth ac adroddiad helaeth ar gyfer celf gyhoeddus, *A Symbol and a Sense of Place*, ynghyd â rhai cynlluniau i'r prif safleoedd. Un o'r rhain yw syniadau am farcwyr palmant sy'n ymwneud â ffyrdd a enwyd ar ôl blodau. Cynhyrchodd plant lleol *collage* wedi'i seilio ar flodau ac mae Gideon Petersen wedi datblygu cynlluniau ohonynt y gallai gael eu defnyddio fel rheiliau o gwmpas yr ysgol.

Hefyd cynllunnir darn mawr o waith ar gyfer un o'r mannau canolog.

Yn 2005 paratowyd **Astudiaeth Ddichonoldeb** gennym ar gyfer **Canolfan Cefn Gwlad Clynfyw, Sir Benfro,** lle y buom yn edrych ar y posibiliadau am ddatblygu'r llwybr cerfluniau yn y ganolfan. Ymhlith pethau eraill, awgrymwyd y gallai Llwybr Cerfluniau Clynfyw ganolbwyntio ar thema chwedlau'r Mabinogi, sy'n gysylltiedig â'r rhan honno o Sir Benfro.

Mae Creu-ad wedi cynhyrchu Cynllun Deongliadol, **Llwybrau a Phobl**, ar gyfer y coetiroedd a mynwent yn **Llandre ger Aberystwyth**.

Gan gydweithio â Threftadaeth Llandre, y grŵp treftadaeth lleol, a grwpiau eraill yn y gymuned megis yr ysgol leol, byddwn yn cynllunio'r paneli croeso deongliadol ar gyfer y safle yn ogystal â

gweithio ar gyfryngau creadigol deongliadol eraill.

Yn y cyfamser, rydym yn brysur wrthi'n creu'r **Llwybr Lludw**, llwybr treftadaeth sy'n cysylltu **pentref Cwmcarn** ym mwrdeistref sirol Caerffili â'r goedwig hamdden gerllaw. Bydd y llwybr yn datblygu themâu sy'n gysylltiedig â hanes glofaol y pentref, yn fwyaf arbennig y ffordd roedd gwaith, hamdden a thrasiedi'n gysylltiedig ym mywydau pobl Cwm-carn.

Llwybr ochr yn ochr â'r rheilffordd oedd *Y Llwybr Lludw* ar un adeg, a gludai lo o Gwmcarn i'r dociau yng Nghasnewydd ac wedyn allan i'r byd. Byddai glowyr yn cerdded i'r gwaith ar hyd y llwybr hwn a orchuddiwyd gynt gynt dan lwch du o'r rheilffordd ond sydd bellach yn wyrdd.

Elfen arall yn y llwybr fydd cerflun sy'n cofláu trychineb 1876, pan ddifethwyd ffatri wlanen y pentref gan lif mawr a laddodd lawer o bobl.

Yn ystod 2005-6 mae gwaith wedi bod ar gerdded ar brosiect peilot ym **Mhontsenni ym Mannau Brycheiniog**, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Menter Iaith Brycheiniog a'r *Welfare*, Ystradgynlais.

Bu 40 o bobl, rhwng 9 a 90 oed, yn gweithio ar y 36 o baneli cefn ffelt, sy'n dilyn themâu unigol sy'n berthnasol i fywyd a thirwedd cymuned Pontsenni.

Cynhaliwyd digwyddiad yn Neuadd Gymunedol Maescar 8fed Medi i ddathlu gorffen y prosiect. Mynychwyd y digwyddiad cymdeithasol yma gan hyd at 200 o bobl. Gellir gweld y paneli ar waliau'r Neuadd Gymunedol.

Yn Hydref 2006, estynnir y gwaith hwn trwy ddatblygu prosiect mwy ym Mannau Brycheiniog dan y teitl ***Dalgylch***. Y syniad y tu ôl i hwn yw dathlu pwysigrwydd afonydd fel dolenni cyswllt rhwng cymunedau, sy'n ganolog i'n dealltwriaeth o'r dirwedd a'i chymeriad diwylliannol.

Mae prosiectau Creu-ad yn dod â chymunedau, rheolwyr, artistiaid a dylunwyr ynghyd i ddatblygu eu syniadau mewn ffyrdd ymarferol o'r cysyniad a'r cynllun cychwynnol hyd y cynnyrch neu ddigwyddiad terfynol.

Mae gennym brofiad a sgiliau mewn cynllunio deongliadol a rheoli, dylunio creadigol, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddisgyblaethau celf, ac mewn hwyluso cymunedol a hyfforddiant. Rydym yn gweithio trwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Am wybodaeth bellach am waith Creu-ad cysylltwch â ni.
Hoffem glywed gennych, os ydych yn cynrychioli corff neu grŵp cymunedol a hoffai gydweithio â ni, neu os ydych yn unigolyn sydd â diddordeb mewn ymwneud ag un o'n prosiectau.

Shelagh Hourahane, 01970 832 898 shelagh@creu-ad.co.uk
Lynne Denman, 01570 480 818 lynne@creu-ad.co.uk

Bydd ein gwefan,www.creu-ad.co.uk yn cael ei diweddaru'n fuan, gyda manylion am y prosiectau y sonnir amdanynt yn y cylchlythyr hwn.